



Cymun Bendigaid “Duw a Dysgwyr”


2 Mehefin 2025

Blandina a'i Chymdeithion

“Duw a Dysgwyr” Holy Eucharist

2 June 2025

Blandina and her Companions




**Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor**

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



*Croeso i
Gadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor.*

*Welcome to
Saint
Deiniol's
Cathedral in
Bangor.*



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnwll o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

You stand now where
Deiniol stood almost a
millennium and a half ago.

Here, in the year 525, he
gathered around him a
community of faith, hope
and love, and raised
around it a hazel fence—
the original **bangor**—for
shelter and sanctuary.

Our prayer is that you,
too, will be embraced
here by the same faith,
hope and love that we
proclaim and live by
today.

Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganiwch y cod QR.

2 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswllt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio'ch cerdyn neu'ch ffôn.

3 Rhowch rodd arian parod yn un o'r basgedi casglu rhoddion yng nghefn Corff yr Eglwys heddiw.

4 I sefydlu rhodd Debyd Uniongyrchol misol, gyda'r opsiwn i ychwanegu Cymorth Rhodd, chwiliwch ar-lein am "Eglwys yng Nghymru Rhoi yn Syth" a dewis "Bro Deiniol" o dan "Buddiolwr".

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.

Support

This holy place of faith, hope and love, and all that takes place here, is sustained by your generosity.

1 To make an online donation on your phone today, scan the QR code.

2 Use our contactless donation point at the back of the Nave to tap your card or phone.

3 Cash donations can be placed in one of the baskets set out at the back of the Nave.

4 To set up a monthly Direct Debit donation, with the option to add Gift Aid, search online for "Church in Wales Gift Direct" and select "Bro Deiniol" under "Beneficiary".

By making a donation, you'll be helping us to continue our essential work.

Ein cymuned About us

Mae ein gwefan yn cael ei diweddarau o bryd i'w gilydd gyda gwybodaeth am y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Ewch i cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk

Gallwch hefyd ddod o hyd i ni a'n dilyn ar Facebook, X (Trydar yn flaenorol), YouTube ac Instagram. Chwiliwch am **Cadeirlan Deiniol Sant**.

Buchedd Bangor yw ein cylchgrawn rheolaidd, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.

Our website is periodically updated with information about the Cathedral and Ministry Area. Visit: cadeirlan.churchinwales.org.uk

You can also find and follow us on Facebook, X (formerly Twitter), YouTube and Instagram. Search for **Saint Deiniol's Cathedral**.

Buchedd Bangor is our regular magazine, offering a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together. Pick up a copy today, or follow the QR code to read online.

Cefnogaeth Support



Buchedd Bangor



Cyflwyniad

Croeso i wasanaeth Duw a Dysgwyr

Diolch am ddod atom i addoli yn y gwasanaeth arbennig hwn yng Nghadeirlan Deiniol Sant. Daeth y syniad am y gwasanaeth hwn wedi sawl sgwrs gyda amryw o ddysgwyr Cymraeg yr Esgobaeth. Un peth wnaeth fy nharo oedd y 'gwyn' ein bod ni'r Cymry yn siarad yn llawer rhy gyflym!! Yn y gwasanaeth hwn y syniad ydi ydi y bydd y gwasanaeth cymun arferol yn cael ei wneud yn hygyrch, ac yn fwy na dim yn cael ei arafu ar gyfer dysgwyr y Gymraeg. Mae yma eiriau allweddol a chyngor ar sut i ynganu rhai geiriau. Bydd pregeth fer a syml ei Chymraeg gyda geiriau allweddol a chyfieithiad ar gael, a byddwn yn canu dau emyn ysgafn ac adnabyddus. Mae'r gwasanaeth yn cael ei anelu at bob safon o ddysgwyr yn y gobaith y bydd yn cynorthwyo'r addolwr i gymryd rhan ymhob addoliad ar draws yr Esgobaeth. Yn dilyn y gwasanaeth ac mewn cydweithrediad â Menter Iaith Bangor bydd cyfle i bawb gael ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch saff a chefnogol a chael tamaid o ginio ysgafn ar yr un pryd.

Diolch a chofion,

Elin Owen (Galluogydd y Gymraeg – Esgobaeth Bangor)

Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrio yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaidd; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Mae testun Cymraeg wedi'i argraffu ar y tudalennau chwith, a'r testun Saesneg ar y dde. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✕. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip gwyrdd**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Introduction

Welcome to the Duw a Dysgwyr Service

Thank you for attending this special service at St Deiniol's Cathedral. The idea for this service came about after several conversations with various Welsh learners in the Diocese. One thing that struck me was the 'complaint' that we Welsh people were talking far too fast!! In this service the idea is that the normal communion service will be made accessible, and above all slowed down for Welsh learners. There are keywords and advice on how to pronounce certain words. A short and simple Welsh sermon with keywords and translation is also available, and we will sing two well-known Welsh hymns. The service is aimed at all learners' standards in the hope that it will assist the worshipper to participate in all worship across the Diocese. Following the service and in collaboration with Menter Iaith Bangor everyone will have the opportunity to practice their Welsh in a safe and supportive atmosphere while also enjoying a light lunch.

Diolch a chofion,

Elin Owen (Welsh Language Enabler
– Diocese of Bangor)

How to pronounce certain Welsh letters:–

A – is always as in *can*, *ham*, or *man*, never long as in *may*.

E – by itself is always as in *get*, *pet*, and *let*.

I – has the I sound as in *bin* or *pin*, or a long E sound as in *seen* or *queen*.

U – the same sound as the 'in' in *inside*.

Worshipping with us today

This booklet contains everything said during our worship. You are invited to take the booklet away with you, to reflect in your own time on the holy words it contains. However, worship is not primarily something that we read or observe – it is an activity, in which we all participate, alongside those who are gathered with us and, we believe, alongside the whole company of heaven. Be sure, therefore, to look up; to notice colour, light, sound, movement and beauty; to raise up your voice; to take your full part; to be formed and transformed.

During our worship, we say and sing together the text **in bold type**. The Welsh-language text is printed on the left-hand pages, and the English-language text on the right. We may make a sign of the Cross at times when the words are marked with ✠. Other directions (rubrics) are offered **in green type**; if you find it more comfortable to sit rather than stand or kneel, please do so.

W – has the sound of OO as in *boot* and *shoot*, or of U as in *pull*. W can also be used as a consonant with the English W sound.

Ch – as the 'ch' in the composer *Bach* and the Scottish word *loch*.

LI – Place the tip of your tongue along the gum line behind your front teeth as if you were about to pronounce the letter L. Then, while keeping your tongue firmly in place, blow a constant stream of air out of the sides of your mouth.

Rh – pronounced as if the 'h' and the 'r' were reversed – 'hr'.

Ng – as in *song*, a soft glottal stop made in your throat.

Trefn ar gyfer y Cymun Bendigaid

Codwn ar ein traed ar ganiad y gloch, a pharhawn ar ein traed tan ddiwedd y
Weddi Gasgl

Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

gah-doo y-ng-har-yad Krist

"Yr wyt ti, Arglwydd, yn oruchaf dros yr holl ddaear; yr wyt wedi
dy ddyrchafu'n uwch o lawer na'r holl dduwiau."

Dad nefol, y mae pob calon yn agored i ti.

nevol khalon

Ni allwn guddio un dim oddi wrthyf.

githio

Glanha ni â fflam dy Ysbryd Glân

Us-brid Glan

er mwyn inni dy garu a'th addoli'n ffyddlon,

futh-lon

trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Yes-ee Grease-t

Edifeirwch

Ŵ Arglwydd, trugarha. **Ŵ Arglwydd, trugarha.**

Argh-lwyth tri-gar-haa

Ŵ Crist, trugarha. **Ŵ Crist, trugarha.**

Ŵ Arglwydd, trugarha. **Ŵ Arglwydd, trugarha.**

Order for the Holy Eucharist

We stand as the bell is rung, and remain standing until after the Collect

Greeting

✠ *In the name of the Father, and of the Son,
and of the Holy Spirit.
Amen.*

*Grace and peace be with you.
And keep you in the love of Christ.*

*"You are God, most high over all the earth; you are exalted far
above all gods."*

Heavenly Father, all hearts are open to you.

No secrets are hidden from you.

*Purify us with the fire of your Holy Spirit
that we may love and worship you faithfully,
through Jesus Christ our Lord. Amen.*

Pentience

Y Lord, have mercy. R Lord, have mercy.

Y Christ, have mercy. R Christ, have mercy.

Y Lord, have mercy. R Lord, have mercy.

Dad nefol,
yr ydym wedi **pechu** ar **feddwl**, gair a **gweithred**,
pe-chee veth-ool gooai-thred
a heb wneud yr hyn a **ddylem**.
thul-em

Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn **edifarhau**.
ed-ee-var-hai

Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddeua inni'r **cwbl** a aeth heibio
math-ey-a coo-bull
ac arwain ni yn ei **ffordd** ef
forth

i gerdded fel plant y **goleuni**. Amen.
go-lay-nee

Yr Hollalluog Dduw, sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol,
✠ a drugarhao wrthy, a'ch rhyddhau o bechod,
eich cadarnhau mewn daioni a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Amen.

Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

Duw hollalluog, a nerthaist Blandina a'i chymdeithion
yng nghanol cynifer o ddioddefiadau mawr: caniatâ, gan
ddilyn eu hesiampl, i ni oll fod yn wir Gristnogion, sy'n
gwrthod caniatáu i unrhyw beth ffiaidd gael ei gyflawni yn ein
plith; trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, i'r hwn gyda thi a'r
Ysbryd Glân y byddo pob anrhydedd a gogoniant yn awr ac am
byth.

Amen.

Eisteddwn

Heavenly Father,
We have **sinned** in **thought**, word and **deed**,

and have failed to do what we **ought** to have done.

We are sorry
and truly **repent**.

For the sake of your Son Jesus Christ who died for us,
forgive us **all** that is past

and lead us in his **way**

to walk as children of **light**. Amen.

Almighty God, who forgives all who truly repent,
✠ have mercy on you and set you free from sin,
strengthen you in goodness and keep you in eternal life;
through Jesus Christ our Lord.
Amen.

Collect

Let us pray.

Almighty God, who strengthened Blandina and her companions as they endured so many and so great sufferings: grant that, following their example, we may all be truly Christian, allowing nothing vile to be done among us; through Jesus Christ your Son our Lord, to whom with you and the Holy Spirit be all honour and glory now and for everever.
Amen.

We sit

Darlleniad o Actau'r Apostolion.

Nawr: Tra oedd Apolos yng Nghorinth, teithiodd Paul drwy'r parthau uchaf, a daeth i **Effesus**. Yno daeth o hyd i rai **disgyblion**, a gofynnodd iddynt, "A dderbynasoch yr Ysbryd Glân pan **gredasoch**?" Meddent hwythau wrtho, "Naddo; ni **chlywsom** hyd yn oed fod yna Ysbryd Glân." Dywedodd yntau, "Â pha fedydd, ynteu, y bedyddiwyd chwi?" Atebasant hwythau, "Â **bedydd** loan." Ac meddai Paul, "Bedydd **edifeirwch** oedd bedydd loan, ac fe ddywedodd wrth y bobl am gredu yn yr hwn oedd yn dod ar ei ôl ef, hynny yw, yn Iesu." Pan glywsant hyn, fe'u bedyddiwyd hwy i enw'r Arglwydd Iesu, a phan roddodd Paul ei **ddwylo** arnynt daeth yr Ysbryd Glân arnynt, a dechreusant **lefaru â thafodau a phroffwydo**. Yr oedd tua deuddeg ohonynt i gyd. Aeth i mewn i'r synagog, ac am dri mis bu'n llefaru'n hy yno, gan **ymresymu** a cheisio eu hargyhoeddi ynghylch **teyrnas Dduw**. Ond gan fod rhai yn ymgaledu ac yn gwrthod credu, ac yn difenwi'r Ffordd yng ngŵydd y gynulleidfa, ymneilltuodd oddi wrthynt gan gymryd ei ddisgyblion oddi yno, a pharhau i ymresymu bob dydd yn **narlithfa** Tyranus. Parhaodd hyn am ddwy flynedd, nes i holl **drigolion** Asia, yn Iddewon a Groegiaid, glywed gair yr Arglwydd.

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

Dee-olch

Actau 19:1-10

Codwn ar ein traed

Word

Reading

A reading from the Acts of the Apostles.

Now: While Apollos was in Corinth, Paul passed through the inland regions and came to Ephesus, where he found some disciples. He said to them, 'Did you receive the Holy Spirit when you became believers?' They replied, 'No, we have not even heard that there is a Holy Spirit.' Then he said, 'Into what then were you baptized?' They answered, 'Into John's baptism.' Paul said, 'John baptized with the baptism of repentance, telling the people to believe in the one who was to come after him, that is, in Jesus.' On hearing this, they were baptized in the name of the Lord Jesus. When Paul had laid his hands on them, the Holy Spirit came upon them, and they spoke in tongues and prophesied—together there were about twelve of them. He entered the synagogue and for three months spoke out boldly, and argued persuasively about the kingdom of God. When some stubbornly refused to believe and spoke evil of the Way before the congregation, he left them, taking the disciples with him, and argued daily in the lecture hall of Tyrannus. This continued for two years, so that all the residents of Asia, both Jews and Greeks, heard the word of the Lord.

Hear the word of life to the world.

Thanks be to God.

Acts 19:1-10

We stand

Efengyl

Ŵ Haleliwia. **R̥ Haleliwia.** Ŵ Yr wyf wedi dweud hyn wrthych er mwyn i chwi, ynof fi, gael tangnefedd. **R̥ Haleliwia.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

A hefyd gyda thi.

Ah hai-vid gi-da thee.

(as in 'hair')

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl ✠ Sant Ioan.

Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Bryd hynny: Meddai ei ddisgyblion ef, “Dyma ti yn awr yn siarad yn gwbl eglur; nid ar ddameg yr wyt yn llefaru mwyach. Yn awr fe wyddom dy fod yn gwybod pob peth, ac nad oes arnat angen i neb dy holi. Dyna pam yr ydym yn credu dy fod wedi dod oddi wrth Dduw.” Atebodd Iesu hwy, “A ydych yn credu yn awr? Edrychwch, y mae amser yn dod, yn wir y mae wedi dod, pan gewch eich gwasgaru bob un i’w le ei hun, a’m gadael i ar fy mhen fy hun. Ac eto, nid wyf ar fy mhen fy hun, oherwydd y mae’r Tad gyda mi. Yr wyf wedi dweud hyn wrthych er mwyn i chwi, ynof fi, gael tangnefedd. Yn y byd fe gewch orthrymder, ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu’r byd.”

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

Moliant i ti, O Grist.

mol-yant

Ioan 16:29-33

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

Pregeth

Cydllynydd Gwenidogaeth Deulu

Yasmin de Rosa

Gwelir y ddalen ar wahân

Gospel

℣ Alleluia. ℟ Alleluia. ℣ I have said this to you, so that in me you may have peace. ℟ Alleluia.

The Lord be with you.

And also with you.

Listen to the Gospel of Christ according to ✠ Saint John.
Glory to you, O Lord.

At that time: His disciples said, 'Yes, now you are speaking plainly, not in any figure of speech! Now we know that you know all things, and do not need to have anyone question you; by this we believe that you came from God.' Jesus answered them, 'Do you now believe? The hour is coming, indeed it has come, when you will be scattered, each one to his home, and you will leave me alone. Yet I am not alone because the Father is with me. I have said this to you, so that in me you may have peace. In the world you face persecution. But take courage; I have conquered the world!'

This is the Gospel of the Lord.

Praise to you, O Christ.

John 16:29-33

We sit at the start of the sermon

Sermon

The Family Ministry Coordinator

Yasmin de Rosa

See the separate sheet

Prayers

Yn nerth yr Ysbryd ac mewn undeb â Christ,
gweddiwn ar y Tad.

Penliniwn neu eisteddwn

Hollalluog Dduw, ein Tad nefol, addewaist trwy dy Fab Iesu
Grist wrando arnom pan weddiwn mewn ffydd. Nertha Andrew
ein Archesgob a David Esgob Enlli, a'th holl Eglwys yng
ngwasanaeth Crist. Boed i'r rhai hynny sy'n cyffesu dy enw
fod yn un yn dy wirionedd, cyd-fyw yn dy gariad, a datgelu dy
ogoniant yn y byd.

Y Arglwydd, yn dy drugaredd,

R **Gwrando ein gweddi.**

Gooran-doh eyen gooeth-ee

Dyro ddoethineb i bawb mewn awdurdod; a chyfarwydda'r
genedl hon a phob cenedl arall yn ffyrdd cyfiawnder a heddwch.
Gweddiwn dros wledydd lle mae gwrthdaro a rhyfel. Gweddiwn
dros Wcráin, Rwsia a'r Dwyrain Canol. Boed inni anrhydeddu ein
gilydd a cheisio lles pawb.

Y Arglwydd, yn dy drugaredd,

R **Gwrando ein gweddi.**

Cysura ac iachâ bawb sy'n dioddef, o ran corff, meddwl neu
ysbryd. Gweddiwn dros y rhai rydan ni'n eu hadnabod o'n
cymunedau; rho iddynt ddewrder a gobaith yn eu trafferthion a
dyro iddynt lawenydd dy iachawdwriaeth.

Y Arglwydd, yn dy drugaredd,

R **Gwrando ein gweddi.**

Gwrando ni wrth inni gofi o'r rhai hynny a fu farw yn ffydd Crist,
yn ôl dy addewidion, caniatâ i ni, gyda hwy, ran yn dy deyrnas
dragwyddol.

Y Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Arglwydd.

R **A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.**

llew-er-ched go-ley-nee

Y ✕ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.

R **A chyfodi mewn gogoniant.**

chuh-vod-ee go-go-nee-ant

*In the strength of the Spirit and in union with Christ,
let us pray to the Father.*

We kneel or sit

Omnipotent God, our heavenly Father, promised through your Son Jesus Christ listens to us when we pray in faith. Strengthen Andrew our Archbishop, David Bishop of Bardsey, and our whole Church in the service of Christ. May those who confess your name be one in your truth, live together in your love, and reveal your glory in the world.

℣ Lord, in your mercy,

℟ Hear our prayer.

Deliver wisdom to all in authority; and direct the this nation and all other nations in the ways of justice and peace. We pray for countries where there is conflict and war. We pray for Ukraine, Russia and the Middle East. May we honor each other and seek the common good.

℣ Lord, in your mercy,

℟ Hear our prayer.

Comfort and heal all who suffer, in body, mind or spirit. We pray for those we know from our communities; give them courage and hope in their plight and bring them the joy of your salvation.

℣ Lord, in your mercy,

℟ Hear our prayer.

Hear us as we remember those who died in the faith of Christ, according to your promises, grant us, with them, a place in your eternal kingdom.

℣ Rest eternal grant unto them, O Lord.

℟ And let light perpetual shine upon them.

℣ ✠ May they rest in peace.

℟ And rise in glory.

Gan ymlawenhau yng nghymundeb Blandina a'i chymdeithion,
Deiniol a'r holl saint Enlli, cyflwynwn ein hunain a'r greadigaeth
gyfan i'th gariad di-ffael.

Y Dad trugarog,

Ry **Derbyn y gweddïau hyn**
er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.
Amen.

Codwn ar ein traed

Tangnefedd

Dywed Iesu, Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd;
fy nhangnefedd yr wyf yn ei roi i chwi. Pe baech yn fy ngharu i,
byddech yn llawenhau fy mod yn mynd at y Tad.

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser.

A hefyd gyda thi.

Ah hai-vid gi-da thee.

(as in 'hair')

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Ar ôl rhannwn y Tangnefedd, parhawn ar ein traed i ganu'r emyn

*Rejoicing in the company of Blandina and her companions,
Deiniol and all the saints of Bardsey, we submit ourselves and
the whole of creation to your unfailing love.*

R Merciful Father,

*Y Accept these prayers for the sake of your Son,
our Saviour Jesus Christ.*

Amen.

We stand

Peace

Jesus says,

Peace I leave with you; my peace I give to you.

If you love me, rejoice because I am going to the Father.

The Peace of the Lord be with you always.

And also with you.

We share a sign of Peace.

After sharing the Peace, we remain standing to sing the hymn

Cymun

Emyn



Mae Duw yn llond pob lle,
presennol ymhob man;
y nesaf yw efe
o bawb at enaid gwan;
wrth law o hyd i wrando cri:
“Nesáu at Dduw sy dda i mi.”

Yr Arglwydd sydd yr un
er maint derfysga'r byd;
er anwadalwch dyn
yr un yw ef o hyd;
y graig ni syfl ym merw'r lli:
“Nesáu at Dduw sy dda i mi.”

Yr hollgyfoethog Dduw,
ei olud ni leiha,
diwalla bob peth byw
o hyd â'i 'wyllys da;
un dafn o'i fôr sy'n fôr i ni:
“Nesáu at Dduw sy dda i mi.”

Geiriau

David Jones (1805-1868)

Cerddoriaeth | “Maelor”

John Hughes (1896-1968)

Parhawn ar ein traed

Sacrament

Hymn

God is the fullness of every place,
Present everywhere;
The nearest is He
Of all to a weak soul;
At hand always to hear a cry:
"It is good for me to draw near to God."

The Lord is the same,
Despite the tumult of the world;
Despite man's fickleness,
The same is He still:
The rock not shifting in the boiling of the flood;
"It is good for me to draw near to God."

The God possessing all riches,
His wealth will not decline;
He will satisfy every living thing
Continually with his good will;
One drop from his sea to us
"It is good for me to draw near to God."

Words

David Jones (1805-1868)

Music | "Maelor"

John Hughes (1896-1968)

We remain standing

Offrwm

Dathlwn gyda'n gilydd roddion a gras Duw.

Cymerwn y bara hwn,

come-air-oon

cymerwn y gwin hwn

i ddilyn esiampl Crist

thil-een es-sham-pl

ac i ufuddhau i'w orchymyn.

ee-vith-hai ew orch-um-in

Gweddi Ewcharistaidd

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

A hefyd gyda thi.

Ah hai-vid gi-da thee.

(as in 'hair')

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

dur-cha-vi

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

A ymddangosodd, ar ôl ei atgyfodiad, i'w apostolion, ac esgyn yn eu gŵydd i ogoniant i ddarparu lle i ni, fel, yn y lle y mae ef, y byddwn ninnau hefyd.

Offertory

We celebrate together the gifts and grace of God.

We take this bread,

we take this wine

to follow Christ's example

and obey his command.

Eucharistic Prayer

The Lord be with you.

And also with you.

Lift up your hearts.

We lift them to the Lord.

Let us give thanks to the Lord our God.

It is right to give our thanks and praise.

It is indeed right, it is our duty and our joy at all times and in all places to give you thanks, holy Father, all-powerful and everliving God, through Jesus Christ our Lord.

Who after his resurrection showed himself to his apostles and in their sight ascended into glory to prepare a place for us, that where he is, we might be also.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn
ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,

Sanct-eye-th

Duw gallu a nerth,

ga-lli ah nairth

nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.

Hosanna yn y goruchaf.

gor-ich-av

✠ **Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.**

Ben-dee-ged-ig

Hosanna yn y goruchaf.

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob
peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond
yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th
ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein
bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i
atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau
ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion
inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch,
fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch,
bwytwch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er
cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi
diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb,
oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir
drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn
bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

And so with the hosts of angels and all the company of heaven we proclaim the glory of your name and join in their unending hymn of praise:

Holy, holy, holy Lord,

God of power and might,

heaven and earth are full of your glory.

Hosanna in the highest.

✠ *Blessed is he who comes in the name of the Lord.*

Hosanna in the highest.

We remain standing

All praise and thanks to you, true and living God, Creator of all things, Giver of life. You formed us in your own image; but we have marred that image and fall short of your glory. We give you thanks that you sent your Son to share our life; you gave him up to death that the world might be saved, and you raised him from the dead that we might live in him and he in us.

Sanctify with your Spirit this bread and wine, your gifts to us, that they may be for us the body and blood of our Saviour Jesus Christ.

On the night he was betrayed, he took bread, and when he had given thanks he broke it and gave it to his disciples, saying, Take, eat; this is my body which is given for you: do this in remembrance of me. ✠

In the same way after supper he took the cup, and when he had given thanks he gave it to them, saying, Drink from this, all of you, for this is my blood of the new covenant which is shed for you and for many for the forgiveness of sins: do this as often as you drink it in remembrance of me. ✠

Gadewch inni gyhoeddi dirgeledd y ffydd:

Bu farw Crist.

Bee va-roo

Atgyfododd Crist.

At-guh-vod-oth

Daw Crist mewn gogoniant.

go-go-nee-ant

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deuwn â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewyddu ni a phawb y gweddiwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

Let us proclaim the mystery of faith:

*Christ **has died**.*

*Christ is **risen**.*

*Christ will come in **glory**.*

As he has commanded us, Father, we remember Jesus Christ, your Son. Proclaiming his victorious death, rejoicing in his resurrection and waiting for him to come in glory we bring to you this bread, this cup. Accept our sacrifice of thanks and praise.

Restore and revive your people, renew us and all for whom we pray with your grace and heavenly ✠ blessing, and at the last receive us with all your saints into that unending joy promised by your Son, Jesus Christ our Lord.

Through him, with him, in him, in the unity of the Holy Spirit all honour and glory are yours, almighty Father, for ever and ever.

✠ Amen.

We remain standing

Gweddî'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddïwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y **nefoedd**,
nev-oith
sancteiddier dy enw,
sanct-aith-yr
deled dy **deyrnas**,
dayr-nas
gwneled dy **ewyllys**;
eh-wuh-llis
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyros i ni heddiw ein bara **beunyddiol**
bay-nuth-yol
a maddau i ni ein **dyledion**,
dull-ed-yon
fel y maddeuwn ninnau i'n **dyledwyr**.
dull-ed-wir
Ac nac arwain ni i **brofedigaeth**;
bro-ved-ig-eyeth
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r **gogoniant**,
go-go-nee-ant
yn **oes oesoedd**.
oys oys-oyth
Amen.

Lord's Prayer

As our Saviour taught us, we boldly pray:

*O*ur Father who art in heaven,
hallowed be thy name,

thy kingdom come,

thy will be done,

on earth as it is in heaven.

Give us this day our daily bread.

And forgive us our trespasses

as we forgive those who trespass against us.

And lead us not into temptation,

but deliver us from evil.

For thine is the kingdom,

the power and the glory,

for ever and ever.

Amen.

Torri

Yr ydym yn torri'r bara hwn i rannu yng Nghorff Crist.

**A ninnau'n llawer, un corff ydym,
gan ein bod ni oll yn rhannu'r un bara.**

hra-ni

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:

Oin Deew um-eyeth bech-odd-ai

trugarha wrthym.

oorth-im

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:

trugarha wrthym.

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:

dyro inni dangnefedd.

dang-nev-eth

Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw

sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.

Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

**Arglwydd, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i gynnull o algyrch Bwrdd yr Allor i Gymuno o'r Afrlladen Sagrafennol ac, os y
dymunwn ac y gallwn, o'r Gwerthfawr Waed

Ar ôl i bawb Gymuno, codwn ar ein traed i ganu'r emyn

Breaking

*We break this bread to share in the body of Christ.
Though we are many, we are one body
for we all share in one bread.*

*Lamb of God, you take away the sins of the world:
have mercy on us.*

*Lamb of God, you take away the sins of the world:
have mercy on us.*

*Lamb of God, you take away the sins of the world:
grant us peace.*

Communion

*✠ Jesus is the Lamb of God
who takes away the sins of the world.
Happy are those who are called to his supper.
Lord, I am not worthy to receive you,
but only say the word and I shall be healed.*

*We gather around the altar-table to make our Communion, receiving the
Sacramental Host and, if we wish or are able, the Precious Blood*

After all have made their Communion, we stand to sing the hymn



Canaf yn y bore
am dy ofal cu;
drwy yr hinos dywyll
gwyliaist dros of fi.

Diolch iti, Arglwydd,
nid ateliaist ddim;
cysgod, bwyd a dillad,
ti a'u rhoddaist im.

Cadw fi'n ddiogel
beunydd ar fy nhaith;
arwain fi mewn chwarae,
arwain fi mewn gwaith.

Boed fy ngwaith yn onest,
rho im galon bur;
nertha fi i ddewis
rhwng y gau a'r gwir.

"Diolch iti, Arglwydd,"
yw fy llawen gân;
canaf nes im gyrraedd
bröydd Gwynfa lân.

Geiriau

William Bryn Davies (1865-1921)

Cerddoriaeth | "Llys Aeron"

Lewis Jones Roberts (1866-1931)

Parhawn ar ein traed

I will sing in the morning
Of thy dear care;
Through the long, dark night
Thou didst watch over me.

Thanks to thee, Lord,
Who didst not cease;
Shelter, food and clothing,
Thou gavest them to me.

Keep me safe
Daily on my journey;
Lead me in play,
Lead me in work.

May my work be honest,
Give me a pure heart;
Strengthen me to choose
Between the wrong and the right.

"Thanks to thee, Lord,"
Is my joyful song;
I will sing until I reach
The regions of holy Blessedness.

Words

William Bryn Davies (1865-1921)

Music | "Llys Aeron"

Lewis Jones Roberts (1866-1931)

We remain standing

Ymadael

Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd graslon yw ef:
ei gariad sy'n dragywydd.

Diolchwn i ti, ein Tad,
am ein porthi â chorff a gwaed dy Fab

pour-thee ah

yn y sacrament sanctaidd hwn,
y cawn trwyddo sicrwydd

sick-rooith

o'r gobaith am fywyd tragwyddol.

vy-wid trag-with-ol

Offrymwn ein hunain yn aberth bywiol i ti.

off-rum-oon

Cadw ni yng nghymdeithas ei gorff, yr Eglwys,

nghum-day-thas

ac anfon ni allan yn nerth dy Ysbryd

i fyw ac i weithio er mawl a gogoniant i ti. Amen.

maool go-go-nee-ant

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

A hefyd gyda thi.

Ah hai-vid gi-da thee.

(as in 'hair')

Bydded i Grist ein Brenin dyrchafedig dywallt arnoch ei roddion helaeth fel y gallwch ei wasanaethu ef a theyrnasu gydag ef yn ei ogoniant; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Evch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.

Yn Enw Crist. Amen.

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r offeiriad ymadael

Departing

*Give thanks to the Lord for he is gracious:
his love is everlasting.*

*We thank you, Father,
for feeding us with the body and blood of your Son*

*in this holy sacrament,
through which we are assured*

of the hope of eternal life.

We offer ourselves to you as a living sacrifice.

Keep us in the fellowship of his body, the Church,


*and send us out in the power of your Spirit
to live and work to your praise and glory. Amen.*

*The Lord be with you.
And also with you.*

Christ our exalted King pour on you his abundant gifts that
you may serve him and reign with him in glory; and the
blessing of God almighty, the Father, ✠ the Son, and the
Holy Spirit, be among you and remain with you always.
Amen.

*Go in peace to love and serve the Lord.
In the Name of Christ. Amen.*

We remain standing until the priest has departed



Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

Rhif elusen 1158340

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gyda Swyddog Diogelu Taleithiol:

OlwenKay@eglwysyngnghymru.org.uk | 07908 963335

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur o ffynonellau cynaliadwy sydd wed ei gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff rhai o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook o gamera ym mhen dwyreiniol Corff yr Eglwys sy'n wynebu'r dwyrain, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaidd 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004. Mae'r llythoedd a'r salmyddiaeth yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850).

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Charity number 1158340

Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, please raise them immediately with the Provincial Safeguarding Officer:

OlwenKay@churchinwales.org.uk | 07908 963335

Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

If you have need of a gluten-free wafer (conforming to the canonical requirement for 20 parts gluten per million), please speak to a steward.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the stewards.

Sustainability and permissions

We use sustainably-sourced, low carbon dioxide paper.

Some of our services are streamed on Facebook from a camera at the east end of the Nave facing east, and the recording made available thereafter on the Cathedral's Facebook page. An official photographer may be on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by the Cathedral, please speak to a member of the Cathedral team.

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874. **An Order for the Holy Eucharist 2004**, material from which is included in this service is copyright © Church in Wales Publications 2004. The lessons and psalmody are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. The Welsh-language psalmody refrain is from Nicander, **Y Psallwyr** (1850).